# Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru

## Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2006 – Mawrth 2007

### Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru yn un o bum pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Mae ardal ddaearyddol y Pwyllgor, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 10.1, yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Tor-faen a Rhymni.

2. Cafodd Jocelyn Davies ei hethol yn Gadeirydd ar ddechrau'r cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad yn unol â'r drefn y cytunodd y pleidiau gwleidyddol â hi.

3. Dyma Aelodau'r Pwyllgor: Rosemary Butler, Jeff Cuthburt,  David Davies, Jocelyn Davies, Michael German, William Graham, John Griffiths, Irene James, Laura Anne Jones, Trish Law (a gymerodd le Peter Law - a fu farw yn ystod y cyfnod dan sylw), Huw Lewis a Lynne Neagle.

### Cylch gwaith a dull o weithio

4. Swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth, fel y caiff ei diffinio gan Reol Sefydlog 10.2, yw cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar y rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau hynny.

5. Mae'r Pwyllgor wedi parhau â dulliau o weithio a sefydlwyd yn ystod y Cynulliad cyntaf. Yn benodol, mabwysiadodd ddull thematig o weithio yn ei gyfarfodydd. Parhaodd i roi pwyslais ar gyfranogiad y cyhoedd yn y cyfarfodydd gan gynnwys sesiwn meicroffon agored ym mhob un. Drwy hynny, gallai'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r siaradwyr ar y panel a hefyd i Aelodau'r Pwyllgor. Pan oedd hynny'n briodol, gofalodd y Cadeirydd fod y cyhoedd yn cael ateb ysgrifenedig i'w cwestiynau gan y Gweinidog priodol yn y Cynulliad.

6. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor yn y Coed Duon, Cil-y-coed a Pont-y-pwl.

7. Dewiswyd y pynciau i'w trafod naill ai i adlewyrchu'r sefyllfa leoler mwyn cyfrannu at faes polisi penodol yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddatblygu, neu er mwyn casglu tystiolaeth a sylwadau ar ran un o'r pwyllgorau pwnc. Er enghraifft, cafodd y dystiolaeth a gasglwyd a'r sylwadau a fynegwyd yn y cyfarfod cyntaf eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn cyfrannau at eu hadolygiad o Wasanaethau Canser yng Nghymru.

8. Parhaodd y Pwyllgor i ddatblygu ei gysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat yn yr ardal. Mae'r prif gyrff a gafodd eu gwahodd i gyfarfod â'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw wedi'u rhestru isod.

**Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd**

9. Dyma grynodeb o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2006-07:

| Dyddiad | Lleoliad | Pwnc a Sefydliad |
|---|---|---|
| 16 Mehefin 2006 | Y Coed Duon | Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o Wasanaethau Canser<br>• Ysbyty Felindre, Caerdydd<br>• Rhwydwaith Canser De-ddwyrain Cymru<br>• Cefnogaeth Canser Macmillan, Swyddfa Rhanbarth De-ddwyrain Cymru<br>• CLIC , Gofalu am Blant gyda Chanser |
| 27 Hydref 2006 | Cil-y-coed | Y Gwasanaeth Tân yn Ne-ddwyrain Cymru<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br>• Atal Tân Cymru<br>• Undeb y Frigâd Dân<br>• Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn |
| 9 Mawrth 2007 | Pont-y-pwl | Gwasanaethau Epilepsi yn Ne-ddwyrain Cymru<br>• Fforwm Epilepsi Cymru Gyfan<br>• Epilepsi Bereaved<br>• Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Gwent<br>• Yr Uned Epilepsi, Ysbyty Athrofaol Cymru |

**Casgliad**

10. Llwyddodd y Pwyllgor i gynnal trafodaethau â phobl y rhanbarth gan drosglwyddo eu sylwadau i'r Gweinidogion priodol yn y Cynulliad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau** **Mawrth 2007**